

H Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
15/1/2018

Presennol: Tyly Roberts, (Is Gadeirydd), Eleri Jones, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, Huw Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Emyr Jones, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd)

1. Croesawyd pawb gan yr Is-Gadeirydd, Tyly Roberts, a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Ni dderbyniwyd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 13/11/17.
5. Materion y Clerc:
 - a. Adroddwyd fod y 2 di-ffib wedi eu gosod, wedi eu cysylltu gyda'r cyflenwad trydan ac ar gael i'w defnyddio. Gosodwyd un yn y ciosg yn Rhosygwaliau a'r llall yn y ciosg yn Llangywer. **Cytunwyd** i geisio trefnu hyfforddiant i'r ardalwyr naill ai ym mis Chwefror neu tua chanol mis Ebrill.
 - b. Er anfon sawl neges at Barc Cenedlaethol Eryri, ni ddaeth gwybodaeth bellach am gyflwr Eglwys Santes Gwawr. **Cytunwyd** i barhau i geisio cael ymateb.
 - c. Rhannwyd ffurflenni ceisiadau am gymorth ariannol; gellir gwneud cais trwy lythyr hefyd, ond rhai cyflwyno mantolen ddiweddar neu gopi diweddar o ddatganiad banc gyda phob cais. Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried ar 26/2/18, felly fe fydd angen iddynt ddod i law cyn y dyddiad hwnnw.
 - d. Adroddwyd y cafwyd cyfaddawd am osod llinellau melyn wrth bont Mwnwgl y Llyn. Bydd y Cynghorwyr a thrigolion yn monitro effeithiolrwydd y drefn ac yn mynnu adolygiad os bydd y ffordd yn cael ei chau gan yn y dyfodol gan gerbydau'n parcio. Mae'r Cyngor Cymuned hefyd wedi gofyn am bresenoldeb Wardeiniaid Parcio yn yr ardal hon ar adegau prysur.
 - e. Cais am ymateb y Cynghorau Lleol i'r Wyl Awyr Agored Gorffennaf 2018: **cytunwyd** mai dewis yr amser hwyraf i gau'r ffordd fyddai lleiaf trafferthus ar y 7fed o Orffennaf.
6. Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd Sir a gyfeiriodd at fater y llinellau melyn wrth Bont Mwnwgl y Llyn ac at y gorlan biniau yn y maes parcio sydd at ddefnydd trigolion Cwm y Glyn. Mae swyddogion gorfodaeth wedi cymryd camau i sicrhau mai dim ond y trigolion hyn sydd yn cael defnyddio'r gorlan.
7. Derbyniwyd adroddiad trwy'r Clerc o gyfarfod Un Llais Cymru ar 28/11/17. Roedd y Cadeirydd wedi mynychu'r cyfarfod ac roedd Emyr Jones yn awyddus iawn i weld yr ardal hon yn ardal "gyfeillgar i ddementia". Cytunodd y Cynghorwyr drafod y mater mewn cylchoedd ehangach ac i roi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

8. **Materion lleol** gan aelodau'r Cyngor Cymuned: Derbyniwyd cwyn gan berson yn y gymuned nad oedd y lori graeanu yn mynd mor bell â'i gartref; **cytunwyd** i drosglwyddo'r mater i sylw'r Cyngorydd Sir. Mynegwyd y farn fod angen i ardaloedd cefn gwlad dderbyn y sylw dyladwy efo graeanu a glanhau ffosydd a ffyrdd.

Cytunwyd i roi mater cynnal y fynwent ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

9. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Mae'r gwaith ar sicrhau grant ar gyfer uwchraddio'r llawr uchaf yn mynd yn ei flaen, ac mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi les o 25 mlynedd i Gwmni Pum Plwy Penllyn yn g Nghanolfan yr Henblas.

10. **Gohebiaeth:**

- a. Swyddfa Post Y Bala - derbyniwyd gwybodaeth fod y safle presennol yn cau ond bod y gwasanaeth yn mynd i barhau yn Y Bala.
- b. Nodwyd derbyn Cynlluniau Datblygu Sir Ddinbych.
- c. Derbyniwyd llythyr gan HMRC i beidio a gwneud cais am ad-daliad TAW nes bod eu system nhw wedi ei uwchraddio.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 26/2/18

Amser gorffen: 9.00pm